**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu.**

**This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on the Nurse Staffing Levels (Wales) Act 2016: post-legislative scrutiny.**

**NS12: Ymateb gan: | Response from:**

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru / Health Education and Improvement Wales**

---

Addysg a Gwella Iechyd Cymru,
Tŷ Dysgu
Cefn Coed,
Nantgarw,
CF15 7QQ.

18 Gorffennaf 2023

Mr. Russell George AS
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

(Trwy e-bost yn unig)

Annwyl Mr. George,

# Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad pwysig hwn ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Hoffem hefyd ddiolch i chi am roi estyniad i ni hyd at Orffennaf 20 i ymateb.

Darperir y cyflwyniad hwn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ran Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae'n cwmpasu'r pedwar maes a amodir yng Nghylch Gorchwyl yr ymgynghoriad.

**Cyflwyniad**

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw'r corff strategol cenedlaethol ar gyfer y gweithlu ar ran GIG Cymru. Y gweithlu yw'r mater strategol allweddol sydd wrth wraidd y gwasanaeth ac un o'r heriau allweddol o ran ansawdd sy'n effeithio ar iechyd a gofal yng Nghymru. Fel sefydliad, mae gennym gyfraniad unigryw i'w wneud wrth fynd i'r afael â materion strategol ac arbenigol y gweithlu drwy gyfrwng ein swyddogaethau statudol. Rydym yn chwarae rôl arweiniol yn natblygiad cynlluniau gweithlu strategol i hybu datblygiad ffurf presennol y gweithlu ac i'r dyfodol.

Ein hanfod, fel rhan o'r GIG, yw gweithio gyda phartneriaid o fewn y system i gynllunio, datblygu, addysgu, hyfforddi a chynnal gweithlu'r GIG yn awr ac i'r dyfodol. Ein swyddogaethau allweddol yw:

- Addysg a hyfforddiant – cynllunio, comisiynu, traddodi ac arfarnu.
- Datblygu arweinyddiaeth
- Cynllunio'r gweithlu, pennu strategaeth a chasglu gwybodaeth.
- Datblygu a thrawsnewid y gweithlu
- Cymorth proffesiynol er budd datblygu'r gweithlu a gwaith datblygu sefydliadol
- Gwella ansawdd
- Gyrfaoedd ac ehangu mynediad
- Cadw'r gweithlu

1. **Gweithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf hyd yma, gan gynnwys ei heffaith ar ddeilliannau cleifion, yr effaith ar gyfraddau recriwtio a chadw nyrsys a rhwystrau o ran cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.**

Fel corff strategol GIG Cymru ar gyfer y gweithlu, barn AaGIC yw bod Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 wedi codi proffil y proffesiwn nyrsio yng Nghymru ac wedi amlygu'r ffaith bod cynnal lefelau staff nyrsio yn sicrhau darpariaeth gofal diogel i gleifion. Mae'r Canllawiau Statudol (Llywodraeth Cymru 2016) yn darparu'r manylion ar sut i gyfrifo a chynnal y lefelau staff nyrsio a hysbysu cleifion ar wardiau cleifion mewnol oedolion meddygol a llawfeddygol acíwt a wardiau

cleifion mewnol pediatrig. Gwneir hyn yn sgil trefneg driongli sy'n sicrhau dull cyson ledled Cymru wedi'i lywio gan nyrsys.

Mae ymchwil wedi dadlennu y gall lefelau staff nyrsio effeithio ar afiachedd a marwoldeb cleifion (Rafferty et al 2006, Akine et al 2021, Griffiths a Rafferty 2021). Amlygwyd y cysylltiad rhwng lefelau staff nyrsio a deilliannau cleifion 10 mlynedd yn ôl yn Adroddiad Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Canolbarth Swydd Stafford (2013). Mae'r Canllawiau Statudol (Llywodraeth Cymru 2016) yn amlygu'r angen i ystyried ble mae lles cleifion yn arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrsys. Maent hefyd yn nodi y dylid dadansoddi data sy'n ymwneud â chwympiadau cleifion, gwallau meddyginiaethol a briwiau pwyso. Yn GIG Cymru, cesglir y data hwn drwy'r system genedlaethol ar gyfer cofnodi digwyddiadau, ble caiff lefelau staff nyrsio eu hystyried. Ystyrir p'un a oedd y lefel staff nyrsio wedi'i chynnal ar y pryd ynteu a gyfrannwyd at y digwyddiad neu at unrhyw niwed i gleifion yn sgil methiant i gynnal y lefel staff nyrsio. Caiff y data hwn ei gasglu a'i gyflwyno fel adroddiad i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd. Mae'r dull cyson hwn o gasglu data a chraffu arno'n dwysáu atebolrwydd byrddau iechyd, gan dynnu sylw at ddeilliannau cleifion a'r gydberthynas â lefelau staffio.

Mae'n anoddach mesur yr effaith ar gyfraddau recriwtio a chadw nyrsys. Baich gwaith cynyddol, gwaith sy'n achosi straen cynyddol a phrinder staff yw'r tri prif reswm (allan o 21) a nodwyd gan unigolion wrth iddynt ymadael â chofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC 2022). Er bod y Ddeddf efallai'n cyfnerthu cyfraddau recriwtio a chadw nyrsys, mae elfennau cyfnewidiol eraill yn effeithio ar hyn hefyd, gan gynnwys cyflog ac amodau, arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, iechyd a lles y gweithlu, datblygiad proffesiynol parhaus, gweithio hyblyg ac ati. Mae hyn hefyd wedi'i waethygu gan effeithiau parhaol y pandemig, anghenion iechyd newidiol y boblogaeth a'r cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth iechyd.

Mae'r heriau sylweddol presennol o ran recriwtio a chadw'r gweithlu nyrsio, lefelau salwch, absenoldeb a swyddi gwag yn ei gwneud yn anos fyth i fyrddau iechyd weithredu dyletswyddau'r Ddeddf yn llawn. Gall hyn arwain at ddibyniaeth ar y defnydd o staffio atodol. Mae'r Canllawiau Statudol yn datgan y camau rhesymol sy'n ofynnol ar lefelau cenedlaethol, strategol a gweithredol i gynnal lefelau staff nyrsio, i atgyfnerthu atebolrwydd byrddau iechyd am gynllunio'r gweithlu ac i hybu prosesau recriwtio gweithredol a strategaethau cadw a lles lleol. Cydnabyddir bod y defnydd o staffio atodol yn gam gweithredol i gynnal y lefel staffio. Fodd bynnag, mae staffio atodol o bosibl yn effeithio ar ddarpariaeth gofal parhaus i gleifion ac mae'n gostus.

Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn meithrin trefneg unig-broffesiwn, sydd yn lled gyfyngol. Wrth i wasanaethau iechyd a gofal barhau i ddatblygu ac esblygu mewn ymateb i anghenion iechyd a gofal newidiol poblogaeth Cymru, mae'r gweithlu hefyd yn trawsnewid ac yn cydnabod sgiliau a chyfraniad gwerthfawr eraill o fewn y tîm amlbroffesiwn i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae cydymffurfio â'r Ddeddf yn ddibynnol ar gofnodi, coladu a dehongli data sy'n ymwneud â staffio a'r drefneg driongli. Er mwyn i staff nyrsio allu defnyddio'u sgiliau'n briodol, yn effeithlon ac yn effeithiol, mae'n hanfodol bod yr isadeiledd TG cenedlaethol ac integredig cywir mewn grym, gyda hyfforddiant i staff i ategu hyn.

## 2. Camau gweithredu pellach sy'n angenrheidiol i sicrhau cyflenwad cynaliadwy o staff nyrsio i ddiwallu anghenion cleifion a gofynion y ddeddfwriaeth wrth symud ymlaen.

Mae angen rhagor o weithredu, buddsoddi a chydweithio ar draws GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol, darparwyr addysg a Llywodraeth Cymru i sicrhau cyflenwad cynaliadwy o staff nyrsio i ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth a gofynion y ddeddfwriaeth wrth symud ymlaen.

Bydd hyn yn gofyn am ddull amlochrog—sydd wrth wraidd Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol AaGIC, i'w gwblhau erbyn diwedd 23/24. Mae AaGIC yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau cydgysylltiedig er budd atynnu, recriwtio a chadw staff, gwella addysg a hyfforddiant, trawsnewid y gweithlu a sicrhau cyfleoedd a llwybrau datblygiadol a gyrfaol yn ogystal â lles y gweithlu. Disgwylir i Gynllun Cadw'r Gweithlu Nyrsio gael ei lansio ym mis Awst 2023 ac mae'n adlewyrchu safbwyntiau

a thystiolaeth o bob cwr o'r DU. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen gweithredu i fynd i'r afael â materion tâl ac amodau gwaith cyfredol, yn enwedig coleddu dulliau hyblyg o weithio, er mwyn sicrhau cyflenwad cynaliadwy o staff nyrsio.

3. **Cynnydd o ran datblygu'r gronfa dystiolaeth i ymestyn y Ddeddf i leoliadau ehangach.**

Mae’r egwyddorion staff nyrsio dros dro wedi’u datblygu ar gyfer ymweliadau iechyd, nyrsio iechyd meddwl a nyrsio ardal er mwyn rhoi arweiniad i Fyrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd i'w cynorthwyo gyda chynllunio'r gweithlu. Gall byrddau iechyd fabwysiadu'r egwyddorion a hyrwyddo dull cyson o gynllunio'r gweithlu yn y meysydd hyn.

Mae offer/adnoddau wedi’u datblygu sydd wedi wynebu lefelau amrywiol o waith profi, arfarnu a dadansoddi i fireinio a chyfnerthu’r gronfa dystiolaeth sydd ei hangen yn sail iddynt. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau'r gronfa dystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys asesiad gwrthrychol o werth ychwanegol a mesurau effaith.

Cyn cyflwyno unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth, mae angen datblygu system TG genedlaethol gyda datrysiadau digidol a chymorth dadansoddol data er mwyn sicrhau bod data yn cael ei goladu a'i ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon ar lefel leol a chenedlaethol. Gyda'r isadeiledd TG cywir, gellir cofnodi, coladu a dadansoddi data’n ddidrafferth, gan alluogi datblygiad y gronfa dystiolaeth a fydd yn esgor ar gyfleoedd ar gyfer meincnodi ac yn llywio prosesau llunio penderfyniadau a chynllunio'r gweithlu.

Mae gwaith helaeth wedi'i gynnal gan AaGIC mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid i ddatblygu ystod o adnoddau cynllunio'r gweithlu i gynorthwyo Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau.

4. **I ba raddau y mae'r Ddeddf yn ‘ddiogel i’r dyfodol’ ac i ba raddau y bydd yn cyfrannu at sicrhau bod gan GIG Cymru y gweithlu sydd ei angen arno i’r dyfodol i ddarparu gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n diwallu anghenion y boblogaeth oll.**

Ers llunio a chyflwyno'r Ddeddf, mae datblygiadau a gwelliannau gwasanaeth ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi adlewyrchu athroniaeth y dull amlbroffesiynol o weithio, er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu gan y person cywir â'r sgiliau priodol ar yr adeg iawn. Wrth i'r Ddeddf ddatblygu, mae'n bwysig bod darpariaeth gwasanaeth amlbroffesiynol ac amlddisgyblaethol yn cael ei chydnabod a'i hystyried er budd cynaliadwyedd a fforddiadwyedd y system iechyd a gofal.

Wrth i dechnolegau digidol ddatblygu ac anghenion iechyd y boblogaeth newid, ceir effaith ar fodelau darpariaeth gofal yn ogystal â siâp a chyflenwad y gweithlu. Felly mae angen ystyried y Ddeddf yn nhermau agenda ehangach y gweithlu, gan gynnwys trawsnewid, modelu a dylunio’r gweithlu, yn enwedig yn wyneb yr heriau i'r gweithlu a brofir drwy ystod y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae risg, wrth gyfyngu ail ddyletswydd y Ddeddf i wardiau meddygol a llawfeddygol cleifion mewnol oedolion a wardiau cleifion mewnol pediatrig, y gallai adnoddau prin gael eu blaenoriaethu ar gyfer y meysydd hyn yn sgil y ddyletswydd statudol i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am lefelau staff nyrsio (ardaloedd 25b). Gallai hyn fod ar draul meysydd eraill o ran darpariaeth gofal briodol gan broffesiynau eraill. Mae hyn hefyd yn cyfyngu ar allu'r Ddeddf i sicrhau bod anghenion y boblogaeth gyfan yn cael eu diwallu.

Fel rhan o GIG Cymru, mae AaGIC yn gyfrifol am gynllunio, datblygu, addysgu a hyfforddi’r gweithlu presennol ac i’r dyfodol, gan ganolbwyntio ar ddysgeidiaeth amlbroffesiynol a gweithio i ddarparu gofal diogel a deheuig i gleifion. Bydd AaGIC yn parhau i weithio gyda GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn anghenion y gweithlu, gan gynnwys cydymffurfio â'r Ddeddf.

**Sylwadau Ychwanegol**

Rydym yn gofyn tybed a oes angen ystyried amseriad a gwerth adolygu'r ddeddfwriaeth yn dilyn y pandemig.  Yn ddealladwy, effeithiodd yr aflonyddwch a achoswyd yn sgil y pandemig yn sylweddol ar allu a chapasiti sefydliadau i weithredu'r ddeddfwriaeth.

Rhaid cydnabod; mae cyhoeddiad y Ddeddf Ansawdd bellach yn gosod gwelliant diogelwch cleifion fel elfen ganolog yn y GIG yng Nghymru.

Fel sefydliad, nod ein gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithlu strategol yw sicrhau’n bod yn datblygu gweithlu i ddarparu gofal diogel o ansawdd i gleifion. Yn gyffredinol, credwn fod yn rhaid i unrhyw fenter i wella diogelwch cleifion, boed yn ddeddfwriaeth neu fel arall, fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n tystio i’r canlyniadau gorau i gleifion.

I gloi, rydym yn hyderu y bydd y safbwyntiau a gyflwynir ar y materion hyn o fudd i chi.  Yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, rydym hefyd yn cyflwyno cyfieithiad Cymraeg o'r ymateb hwn.

Diolch eto am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad pwysig hwn ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Os oes angen unrhyw beth arall arnoch, mae croeso ichi gysylltu â ni.

Yr eiddoch yn gywir



*Lisa Llewelyn*
*Cyfarwyddwr Gweithredol Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol*
*Executive Director of Nurse and Health Professional Education*

Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Health Education and Improvement Wales